Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad Interim Anarchwiliedig

ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005

Adroddiad Interim Anarchwiliedig
ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005

Mae Grŵp y Post Brenhinol yn unigryw gan ei fod yn cyrraedd pawb yn y DG drwy ei fusnesau post, parseli a Swyddfa'r Post® – sydd yn cyflogi dros 196,000 o bobl. Bob diwrnod gwaith mae'r Post Brenhinol yn casglu, prosesu a dosbarthu tua 83 miliwn eitem i 27 miliwn cyfeiriad am brisiau sydd gyda'r isaf yn Ewrop; bob wythnos gwasanaethwn 28 miliwn cwsmer drwy ein rhwydwaith o 14,542 cangen Swyddfa'r Post® ac yn hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon mae ein busnesau parseli mewnol ac- Ewropeaidd – General Logistics Systems a Parcelforce Worldwide – wedi dosbarthu rhyw 160 miliwn o barseli.

Cynnwys

Datganiad y Cadeirydd	3
Datganiad y Prif Weithredwyr	5
Adolygiad Ariannol	7
Adroddiad Adolygiad Annibynnol i Ddaliadau'r Post Brenhinol ccc	14
Crynodeb o Ddatganiad Incwm y Grŵp anarchwiliedig	15
Crynodeb o Ddatganiad Incwm a Chostau Cydnabyddedig y Grŵp anarchwiliedig	15
Crynodeb o Fantolen y Grŵp anarchwiliedig	16
Crynodeb o Ddatganiad Llif Arian y Grŵp anarchwiliedig	17
Nodiadau i'r Adroddiad Interim Anarchwiliedig	18
Datganiadau Tua'r Dyfodol	22
Gwybodaeth Gorfforaethol	22

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Cadeirydd

Mae'r Post Brenhinol yn wynebu heriau enfawr na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Gwnaethom gynnydd da yn ystod hanner cyntaf 2005-06 – yn enwedig drwy'r perfformiad gorau erioed ar ansawdd llythyrau – ond digwyddodd yn erbyn cefndir o heriau mawr, y gallai pob un ohonynt fygwth ein datblygiad yn y dyfodol.

Yn enwedig, rydym yn cyhoeddi'r canlyniadau hyn wrth aros i weld penderfyniad y Rheoleiddiwr am y prisiau y caniateir i'r Post Brenhinol eu codi am y pedair blynedd nesaf. Mae cynigion y Rheoleiddiwr yn bygwth popeth a gyflawnwyd gennym gyda'n Cynllun Adnewyddu.

Credwn fod y cynigion presennol yn anwybyddu'r angen am fuddsoddi real i gystadlu â medrau gweithredwyr post tramor sydd bellach â gwahoddiad agored i ddewis hufen y busnes yn y DG – a'u marchnadoedd mewnol eu hunain yn dal yn ddiogel iddynt. Mae'r cynigion hefyd yn anwybyddu realiti y diffyg o £4bn mewn pensiynau – sydd bellach yn golygu bod dyledion y Post Brenhinol yw uwch na'i asedion.

Mae Postcomm hefyd yn bwriadu cadw gormod o'n prisiau ymhell o dan y costau go iawn, gan fynnu enillion effeithlonrwydd newydd ac afrealistig ar ben yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod ein Cynllun Adnewyddu.

Oni bai bod newid mawr i'r cynigion, mae'r Rheoleiddiwr – yn fwriadol neu'n anfwriadol – ar fin dadwneud y gwelliant ffantastig a gyflawnwyd gan ein pobl.

Sicrhaodd y gwelliant hwnnw ein bod wedi dechrau 2005-06 fel llwyddiant amodol, gyda cholledion o dros £1m bob diwrnod gwaith yn cael eu trawsffurfio'n elw o fwy na £2m... Gydag ansawdd y gwasanaeth yn cyrraedd rhai o'r lefelau gorau ers deng mlynedd ... Gyda'r nifer o lythyrau coll wedi'i haneru bron ... Gyda phostmyn yn ennill tua 25% yn fwy mewn cyflog sylfaenol am bum, yn hytrach na chwe, diwrnod yr wythnos ... Gyda'r nifer o ddyddiau a gollwyd i streiciau yn is nag erioed ... Gyda lansio ein gwasanaethau ffôn ac ariannol Swyddfa'r Post® newydd cyntaf ... A gyda'n dau fusnes parseli'n dangos gwelliannau mawr.

Mae ein perfformiad yn ystod y chwe mis cyntaf wedi atgyfnerthu'r llwyddiannau hyn. Mae mwy o gynhyrchion Swyddfa'r Post® ar gael. A bu perfformiad ariannol Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gyson wrth i gyfnod y Llyfr Budd-daliadau ddirwyn i ben. Bu ychydig o welliant yn ei golledion o £57m ers 2004-05. Gwelodd ein busnesau parseli – Parcelforce Worldwide yn y DG a General Logistics Systems (GLS) yn y farchnad Ewropeaidd, nas rheoleiddir gan Postcomm – well canlyniadau, gyda GLS yn gwneud elw o £43m – gwelliant enfawr o 87%, oherwydd twf cryf mewn meintiau - a Parcelforce Worldwide yn agos at fod heb ennill na cholli hyd yn oed gyda chostau wedi gostwng i £1m.

Ond nid yw'r busnes llythyrau bellach yn cyfrannu at ein twf cyffredinol nac i'n perfformiad ariannol gwell. Mae'n cynnig yr ansawdd gwasanaeth orau erioed (a seiliwyd ar fesuriadau annibynnol) – cyflawniad ffantastig sydd yn amlygu dycnwch ein postmyn a llwyddiant rhaglenni moderneiddio mawr y llynedd. Ond mae'r elw o £168m yn 3% yn is na'r un cyfnod y llynedd – wrth i'r gwendid cyffredinol yn economi'r DG effeithio ar feintiau'r post ac wrth i'r gystadleuaeth drwy wasanaethau Access ddechrau cael effaith. Hyd yn oed cyn effaith lawn y cystadlu, mae ein marchnad post cyfeiriedig eisoes yn crebachu.

Yn gyffredinol, elw gweithredol o £159m yw canlyniad y Grŵp, o gymharu ag £132m yn achos yr hanner blwyddyn cyfatebol yn 2004-05. Mae'r gwelliant, a yrrir gan berfformiad ein busnesau anreoledig, yn arwydd calonogol.

Ond nid yw'n ddigon. Bydd popeth yn newid yn lonawr pan fydd y farchnad yn agor ac ni fydd y perfformiad cyfredol yn arwydd o fath yn y byd i'r hyn sydd yn mynd i ddigwydd y flwyddyn nesaf.

Bellach wynebwn ddau brawf wrth i'r farchnad agor yn llawn i gystadleuaeth.

Ydyn ni'n ddigon da i'w wynebu?

Ac os ydym ni, a fydd ein Rheoleiddiwr yn gadael i ni gystadlu gyda'r un rhyddid â'n cystadleuwyr?

Cyflwynir cystadlu llwyr i farchnad y DG yn lonawr – ond mae'r cae chwarae wedi ei ogwyddo'n fwriadol ac annheg o blaid ein cystadleuwyr. Mae gor-reoli ar brisiau a gwasanaethau'r Post Brenhinol ac mae'r Rheoleiddiwr yn chwilio am fwy o reolaeth nid llai. Cedwir pris gormod o'n gwasanaethau yn is na'r costau. Mae angen prisiau call arnom i gystadlu'n effeithiol ar gyfer rhannau proffidiol y farchnad fusnes – heb hyn nid oes enillion i dalu am y post cymdeithasol sy'n colli arian, fel llythyrau personol a chardiau pen-blwydd, ac mae'r gwasanaeth cyffredinol un-pris-i-bobman dan fygythiad.

Mae tair her i ni felly.

Mae gan y Post Brenhinol ddiffyg cyfrifyddu pensiwn o £4bn a dyledion sy'n fwy na'i asedion. Mae angen caniatáu i ni wneud digon o arian – mewn marchnad gystadleuol, nid fel monopoli – i gyflawni ein cyfrifoldebau.

Mae angen i ni wario arian – £2bn – i foderneiddio'r Cwmni. Mae ein defnydd o dechnoleg ar ei hôl hi o safbwynt ein cystadleuwyr ac mae angen adnewyddu ein hadeiladau a'n hoffer.

Datganiad y Cadeirydd (parhad)

Mae angen i ni hefyd gwblhau moderneiddio ein cydberthynas gyda'n pobl. Oherwydd hwy y mae ein gwasanaeth llythyrau'n well nag erioed o'r blaen. Hwy yw'r bobl sydd ar stepan pob drws bob dydd. Dim ond eu hymroddiad personol hwy, eu hynni a'u penderfyniad i lwyddo, fydd yn dwyn y Post Brenhinol yn ei flaen fel busnes drwy'r cyfnod nesaf hwn o newid digyffelyb. Dyna pam rwyf o'r farn y dylent gael cyfran wirioneddol yn y Post Brenhinol. Dyna pam rwyf wedi'i gwneud hi'n glir i'r Llywodraeth fy mod yn gwbl gefnogol i'r syniad o gael rhyw fath o berchnogaeth i'w rhannu ymhlith y gweithwyr.

Mae llawer yn y fantol. Mae newid digyffelyb – a dyna yw agor y farchnad yn gynnar heb amheuaeth – yn golygu risg ddigyffelyb. Yr hyn sydd mewn perygl os methwn yw'r gallu i gynnig set wirioneddol gyffredinol o wasanaethau, ar gael i bawb, dosbarthu i bobman, bob diwrnod gwaith am yr un pris. Nid oes prinder pobl gysylltiedig â'r mater hwn. Mae Postcomm yn agos at gwblhau ei ymgynghoriad ar y rheolaeth brisiau hanfodol nesaf. Yn berffaith syml, bydd canlyniad gwael yn angheuol. Mae Sir George Bain yn cefnogi'r Adran dros Fasnach a Diwydiant gyda'i benderfyniadau. Mae ein cwsmeriaid – a'n cystadleuwyr – yn gwylio.

Mae'r Post Brenhinol yn croesawu cystdaleuaeth ond mae arno angen y gallu a'r rhyddid i gystadlu. Bydd y flwyddyn hon yn dechrau dangos a yw'r gallu hwnnw gennym ni – ac mae'r gallu gennym yn fy marn i – a pha un a ganiateir y rhyddid hwnnw i ni. Credaf ein bod yn ei haeddu.

Allan Leighton

Cadeirydd

17 Tachwedd 2005

Ailfynegwyd ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a nodwyd ar gyfer effaith y trosglwyddo i Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Prif Weithredwyr

Dosbarthodd y **Post Brenhinol** agos i 94% o lythyrau Dosbarth Cyntaf y diwrnod gwaith ar ôl eu postio yn ystod hanner cyntaf 2005-06. Dyma berfformiad sy'n curo ein targed uwch, newydd sef 93%, ac sy'n curo unrhyw berfformiad gan y Post Brenhinol yn y gorffennol. Roedd ein Cynllun Adnewyddu'n ymwneud â gwasanaeth yn ogystal â pherfformiad ariannol. Gorffenasom y Cynllun Adnewyddu, a dechreuasom y flwyddyn ariannol, gyda'r perfformiad ansawdd gorau ers deng mlynedd; ac rydym wedi rhagori arno. Roedd llythyrau Ail Ddosbarth a gwasanaethau Mailsort a Presstream i fusnes hefyd o flaen eu targed. Nid oes dim pwysicach wrth i ni baratoi ar gyfer cystadleuaeth. Ein blaenoriaeth fydd buddsoddi i sicrhau ein bod yn parhau i wella'r gwasanaethau a gynigiwn i'n cwsmeriaid. Ni allwn wneud hyn ond os bydd Postcomm yn cyflwyno trefn brisio sy'n cefnogi, yn hytrach nag anwybyddu, dyheadau'r cwsmeriaid am wasanaethau post mwy arloesol. Bydd y cynigion cyfredol yn gwaethygu ansawdd yn lle ei gwella.

Yn ariannol, mae'r darlun yn anos o lawer. Dim ond twf o £38m (1.2%) a fu yn refeniw ein busnes llythyrau. Cafwyd y twf hwnnw gyda chodiad mewn prisiau oedd yn is na chwyddiant. Mae'r meintiau sylfaenol mewn post cyffredin craidd wedi gostwng – bu gostyngiad mewn post Dosbarth Cyntaf ac Ail o tua 4%, a bu gostyngiad o 7% yn achos gwasanaethau Mailsort i fusnes, tra gostyngodd meintiau post cyffredinol, ac eithrio dosbarthiadau o-ddrws-i-ddrws, 1.2%, sef y gostyngiad cyntaf ers 25 mlynedd.

Gwelwyd twf mewn dosbarthiadau o-ddrws-i-ddrws a gwasanaethau Mynediad, lle mynnir bod y Post Brenhinol yn dosbarthu post a gasglwyd ac a ddidolwyd gan gystadleuwyr, ond roedd y meintiau'n llai ac felly gostyngodd y refeniw a phroffidioldeb.

Mae hyn yn newid sylfaenol yn y farchnad. Mae cwsmeriaid yn postio llai ac yn defnyddio gwasanaethau rhatach pan fônt yn postio. Nid rhagfynegi na rhagweld mo hyn – dyma'r realiti y mae'r Post Brenhinol a'i bobl yn ei weld yn y farchnad bob dydd.

Mae'r Post Brenhinol eisoes wedi cludo 382 miliwn o lythyrau i gystadleuwyr drwy wasanaethau Mynediad. Erbyn diwedd y flwyddyn disgwyliwn y byddwn wedi cludo o leiaf biliwn o lythyrau i'n prif gystadleuwyr. Mae'r rhagdybiadau am barhad y twf yn y farchnad – sydd yn dal wrth wraidd syniadau'r rheoleiddiwr am brisiau a llawer o faterion eraill – bellach wedi dyddio. Mae'r dystiolaeth yn glir – nid yw'r farchnad y gweithiwn ynddi yn ehangu.

Mae'r gwasanaeth cyffredinol yn ganolog i bopeth a wnawn. Dyma reswm allweddol dros fynd ar drywydd y farchnad fusnes – oherwydd mae post cymdeithasol gyda stampiau'n colli arian ac yn cael ei ariannu gan y prisiau a godir gan y Post Brenhinol ar gwsmeriaid busnes. Nid yw'r Post Brenhinol yn cynnig codi pris economaidd llawn am bost stampiedig. Ond mae angen rhywfaint o ailfantoli os ydym i godi prisiau cystadleuol ar gwsmeriaid busnes. Rydym wedi gofyn am gael codi pris stamp Dosbarth Cyntaf i 39c erbyn diwedd y cyfnod rheoli prisiau nesaf o bedair blynedd yn 2009-10, a fydd yn dal ymhell o dan gost economaidd – 46c – dosbarthu llythyr.

Yn Awst cytunwyd y caem newid y sail ar gyfer prisiau o fis Awst y flwyddyn nesaf i gynnwys maint yn ogystal â phwysau eitem. Dyma gam cyntaf a phwysig tuag at osod prisiau'r Post Brenhinol ar delerau mwy masnachol ond mae angen dilyn hyn gyda mwy o hyblygrwydd ar brisiau am wasanaethau busnes.

Mae **Swyddfa'r Post Cyfyngedig** bellach yn gweithredu heb refeniwau traddodiadol o fudd-daliadau. Bu gostyngiad o £70m (14.3%) yng nghyfanswm ein hincwm yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn o'u cymharu â 2004-05. Ni bu fawr o newid mewn colledion sef £57m, £1m yn well na'r llynedd – sydd yn adlewyrchu cyflwyno cynhyrchion teleffoni a gwasanaethau ariannol newydd, twf parhaol mewn gwasanaethau teithio, a'n cryfderau traddodiadol o ran gwerthu cynhyrchion y Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide.

Lansiwyd cerdyn credyd Swyddfa'r Post®, sy'n cynnig cyfleuster benthyca dau-mewn-un unigryw, ym Medi gan ymestyn ymhellach ein strategaeth o gynnig gwasanaethau ariannol trwy ein brand a'n rhwydwaith digyffelyb o 14,542 cangen Swyddfa'r Post®.

Mae ein portffolio cynyddol o gynhychion newydd yn cyd-fynd â thrawsffurfiad parhaol ein rhwydwaith wrth i ni geisio model cynaliadwy at y dyfodol. Mae angen i'n hisbostfeistri fod yn llu gwerthu cryf, gan ddefnyddio eu gwybodaeth leol eang a'r ymddiriedaeth sydd ganddynt mewn ffordd na all unrhyw ddarparwr gwasanaeth arall ei wneud. Trefnwyd dros 900 digwyddiad hyfforddi i helpu cydweithwyr i wella eu sgiliau a'u technegau gwerthu. Rydym wedi dechrau trawsffurifo'r cynnig manwerthu yn ein prif ganghennau a reolir yn uniongyrchol drwy bartneriaeth gydag ISA Retail, gan ddod ag ystod ddeniadol o nwyddau manwerthu i'n heiddo ar y stryd fawr.

Mae'r her sy'n wynebu'r rhwydwaith yn dal yn enfawr. Cyfanswm y canghennau yn awr yw 14,542, gostyngiad o 67 ers diwedd 2004-05. Parheir i gefnogi canghennau gwledig gydag arian rhwydwaith cymdeithasol gwerth £150m y flwyddyn, tra rydym yn chwilio am a phrofi atebion arloesol i'r problemau a wynebir gan ganghennau anghynaliadwy mewn cymunedau gwledig lleol.

Datganiad y Prif Weithredwyr (parhad)

Mae ein busnesau parseli eisoes yn gweithredu mewn marchnad gwbl gystadleuol ac maent y tu allan i'r drefn reoli a sefydlwyd gan Postcomm. Mae'r ddau'n gwella eu perfformiad. Mae **General Logistics Systems** (GLS) wedi cynyddu ei incwm £72m (17.2%) i £490m yn ystod yr hanner blwyddyn, yn bennaf oherwydd twf mawr mewn meintiau parseli craidd, yn enwedig mewn marchnadoedd mewnol ac allanol. Bu cryfhau'r ewro'n gymorth i'r twf a chyflwynodd y rheolwyr reoliadau costau llymach a gwell cynhyrchiant gweithredol. Bu cynnydd eithriadol o 87% i £43m mewn proffidioldeb – gan wneud GLS yn chwaraewr mwyfwy pwysig ym mherfformiad ariannol cyffredinol y Grŵp.

Gwelodd **Parcelforce Worldwide** dwf mewn incwm o £10m (7.2%) ar yr un pryd ag ennill gwelliannau effeithlonrwydd gweithredol o tua 10% o gymharu â'r llynedd. O ganlyniad bu lleihad o 92.3% yn y golled weithredol rhagor yr un cyfnod yn 2004-05 i £1m yn unig.

Mae ein proffidioldeb cyffredinol uwch yn cael ei yrru gan y rhannau o'n sefydliad a reoleiddir leiaf. Ond daw agos i 76% o'n hincwm o'n busnes llythyrau rheoledig. Ni allwn fforddio petruso mewn marchnad allanol sydd bellach yn anodd a heriol. Mae hynny'n golygu cael dêl reoleiddiol deg ar brisiau. Mae hefyd yn golygu parhau i yrru ansawdd ac arloesi yn ein busnes. Rydym yn gweithio'n galed gyda'n cwsmeriaid i drawsffurfio portffolio cynhyrchion Swyddfa'r Post Cyfyngedig a'r busnes llythyrau. Mewn marchnad gystadleuol mae angen i'n holl fusnesau gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau sydd wedi eu seilio ar yr hyn mae ein cwsmeriaid ei eisiau, ac sydd wedi'u prisio ar sail gwir gostau. Cynhyrchion sydd yn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth y mae ein brandiau'n ei mwynhau. Cynhyrchion fydd yn peri i'n cwsmeriaid eisiau aros gyda ni.

Credwn yn bendant mai ffocws masnachol a gyfunir â rhyddid masnachol a rheoleiddio teg yw'r ffordd orau o ddiogelu gwasanaethau post a gwasanaethau Swyddfa'r Post® sydd yn gwasanaethu ein cymunedau lleol ledled y DG.

Adam Crozier

Prif Weithredwr

Grŵp y Post Brenhinol ccc

17 Tachwedd 2005

David Mills

Prif Weithredwr

Swyddfa'r Post Cyfyngedig

17 Tachwedd 2005

Ailfynegwyd ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a nodwyd ar gyfer effaith y trosglwyddo i Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Mesurir ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn annibynnol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adolygiad Ariannol

Crynodeb o'r canlyniadau	2005	2004
	£m	£m
Refeniw allanol	4,378	4,327
Elw gweithredol	159	132
Eitemau eithriadol net	(72)	(99)
Incwm ariannol net	49	35
Elw cyn treth	136	68
Taliad treth	(45)	(11)
Elw wedi treth	91	57

Elw /(colled)weithredol fesul uned busnes - £m



Twf mewn elw /(colled) weithredol fesul uned busnes - £m



Yn y dadansoddiad canlynol, mae pob cyfeiriad at elw gweithredol cyn eitemau eithriadol.

Adroddwn am elw hanner-blwyddyn cyntaf o £159m o'i gymharu â £132m ar gyfer hanner cyntaf cyfatebol 2004, cynnydd o £27m neu 20.5% a yrrwyd gan berfformiad ein busnesau parseli anreoledig. Cyfrannodd pob uned busnes weithredol at y cynnydd ar wahân i'r Post Brenhinol, gyda General Logistics Systems yn gwella proffidioldeb £20m (87.0%), Parcelforce Worldwide £12m (92.3%), Swyddfa'r Post Cyfyngedig £1m (1.7%) tra adroddodd y Post Brenhinol ostyngiad o £5m (2.9%).

Mae'r gostyngiad o £5m yn elw gweithredol y Post Brenhinol yn ganlyniad yn bennaf i leihad mewn twf refeniw, 1.2% yn erbyn twf o 4.2% yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Canlyniad yw'r twf o 1.2% (£38m) i'r cynnydd mewn tariffiau o ryw 1.8% (£59m), cynnydd o 0.8% (£26m) mewn meintiau a wrthbwysir gan effaith negyddol gymysg o 1.4% (£47m) o ganlyniad yn bennaf i'r ffaith bod cwsmeriaid busnes yn gwario llai ar farchnata uniongyrchol ac yn newid i gynhyrchion rhatach gan gynnwys Access. Mae rhywfaint o sgôp i leihau costau gweithredol yn y tymor byr.

Er colli incwm budd-daliadau traddodiadol, a oedd yn werth 40% o'i refeniw hanesyddol, lleihaodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig ei golledion o £58m i £57m. Gwnaed hyn drwy ddenu llifoedd refeniw newydd, yn bennaf oherwydd gweithgarwch bancio a Bureau de Change, a gwelliannau parhaol mewn cost-effeithiolrwydd cyffredinol. Mae'r golled o £57m yn cynnwys cost cynnal rhan aneconomaidd y rhwydwaith gwledig. Pe bai'r gweithgarwch hwn wedi'i ariannu gan y Llywodraeth byddai Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi gwneud elw.

Cododd refeniw allanol General Logistics Systems £72m (17.2%) gan gynnwys yr £8m o effaith gadarnhaol oherwydd cryfhau'r Ewro. Daw'r twf sylfaenol o £64m (15.3%) o dwf cryf mewn meintiau parseli craidd ac ehangiad parhaol y rhwydwaith Ewropeaidd gan gynnwys caffaeliadau ym Mhwyl a'r Eidal. Bu cynnydd mewn elw gweithredol o £20m (87.0%), o £23m y llynedd i £43m eleni, a gyrwyd hyn gan gyfuniad o gynnydd mewn refeniw, rheolaethau costau llym a gwell cynhyrchiant gweithredol.

Cyfrannodd Parcelforce Worldwide £12m i elw gweithredol cyffredinol y Grŵp oherwydd lleihau colledion o £13m i £1m, gwelliant mewn perfformiad o 92.3%. Mae'r perfformiad hwn yn ganlyniad i dwf mewn refeniw o £10m (7.2%) yn bennaf oherwydd meintiau mwy a meintiau elw mwy ar y cyd â'i raglen lleihau costau.

Mae busnesau eraill yn cynnwys cyfran y Grŵp o'r canlyniadau o'n cydfentrau (CF) a chysylltiadau, yn enwedig Quadrant (arlwyo), a Camelot (loteri). Yn gyfanredol adroddodd busnesau eraill y Grŵp elw o £6m o'i gymharu â £7m y llynedd.

Adolygiad Ariannol (parhad)

Refeniw Allanol

Bu cynnydd mewn refeniw allanol o 1.2% (£51m) o £4,327m i £4,378m, a chododd £59m ohono drwy gynyddu pris post mewnol (1.8%), £26m o dwf sylfaenol mewn meintiau post mewnol (0.8%) a £47m (1.4%) o effaith cymysgedd negyddol. Fodd bynnag, roedd cyfanswm twf meintiau'r post ymhell o dan chwyddiant ac yn is o lawer nag a ddisgwylid oherwydd yr arafu yn economi'r DG ac, am y tro cyntaf mewn 25 mlynedd, gwelsom ostyngiad yn ein prif gynhyrchion manwerthu gan gynnwys Dosbarth Cyntaf, Ail Ddosbarth a Mailsort. Mae hyn, a'r ffaith bod cwsmeriaid busnes yn gwario llai ar farchnata uniongyrchol ac yn newid i gynhyrchion rhatach fel Access, wedi arwain at effaith cymysgedd niweidiol ar broffidioldeb.

Mae refeniw y Post Brenhinol yn cyfrannu 75.8% i refeniw allanol y Grŵp. Cynyddodd General Logistics Systems ei refeniw 17.2% (£72m) – 15.3% cyn effaith y gyfradd gyfnewid - o £418m i £490m (11.2% o refeniw allanol y Grŵp) yn bennaf oherwydd twf mewn meintiau, yn bennaf yn yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal. Cynyddodd Parcelforce Worldwide ei refeniw 7.2% (£10m) o £138m i £148m (3.4% o refeniw allanol y Grŵp), sy'n adlewyrchu meintiau mwy mewn cynhyrchion cyfrif cenedlaethol a chymysgedd ffafriol. Adroddodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig leihad o 14.3% (£70m) o £490m i £420m (9.6% o refeniw allanol y Grŵp), yn bennaf oherwydd erydu meintiau budd-daliadau traddodiadol, a wrthbwyswyd yn rhannol gan refeniwau gwasanaeth ariannol cenedlaethol newydd..

Trosiant allanol fesul uned busnes – £m



Trosiant allanol fesul uned busnes – £m



Costau (heb eitemau eithriadol)

Bu cynnydd o £30m (0.7%) yng nghyfanswm y costau sef £4,238m sydd lawer is na chwyddiant.

Mae costau pobl sef £2,629m yn cynrychioli 62% o sail costau'r Grŵp ac maent wedi cynyddu £151m (6.1%) o flwydyn i flwyddyn. Mae hyn oherwydd y llif blynyddol drwy effaith y lleiafswm o £300 yr wythnos mewn setliad cyflog – pam gwblhawyd rhaglenni effeithlonrwydd gweithredu yn y gweithrediadau llythyrau craidd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf – a'r codiad costau byw lefel chwyddiant ar gyfer y flwyddyn yn weithredol o 1 Ebrill 2005 a gododd y cyflog wythnosol sylfaenol i £311.50 y pen i'r rhan fwyaf o bobl y rheng flaen. Gwrthbwyswyd hyn i raddau drwy leihau costau oherwydd bod pobl wedi gadael y busnes dan raglenni diswyddiad gwirfoddol.

Mae'r costau dosbarthu a throsglwyddo, £454m, sy'n cynrychioli 10.7% o sail cost y Grŵp, wedi cynyddu £54m (13.5%), gan gynnwys £8m am danwydd, sydd wedi codi 13.6% ac na ellir ei drosglwyddo i'n cwsmeriaid rheoledig drwy godi prisiau.

Mae costau gweithredu eraill o £1,155m sy'n cynrychioli 27.3% o sail cost y Grŵp wedi gostwng £175m (13.2%) oherwydd gwelliannau parhaol mewn effeithlonrwydd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys ffwythiannau cefnogi canolog a chostau eiddo.

Cyfran o'r elw mewn cyfranogion a chydfentrau

Mae cyfran y Grŵp o elw gyda chyfranogion a chydfentrau o £19m (2004 £13m) yn cynnwys £3m (2004 £4m) gan Camelot, £19m (2004 £17m) gan gydfenter Bureau de Change SPC (First Rate Travel Servies Limited), £3m (2004 £nil) gan Quadrant ein cydfenter arlwyo a £dim o elw gan Romec Limited ein gweithrediad rheoli cyfleusterau ac NDC 2000 Cyfyngedig ein gweithrediad gwasanaethau peirianneg adeiladu (elw 2004 £1m ac £1m), y ddau bellach yn isgwmnïau i'r Grŵp (cydfentrau gynt), a wrthbwyswyd gan golled o £6m gyda chydfenter gwasanaethau ariannol y Bank of Ireland gyda Swyddfa'r Post Cyfyngedig (2004 colled o £10m). Disgwyliwyd y colledion sefydlu gyda Gwasanaethau Ariannol a chanlyniad ydynt i wariant ar werthu a marchnata i hybu cynhyrchion newydd.

Eitemau eithriadol

Mae'r costau eithriadol net o £72m (2004 £99m) yn cynnwys £38m (2004 £80m cost) mewn cysylltiad â thaliadau Rhannu mewn Llwyddiant, £8m (2004 £1m cost) am amhariad asedion sefydlog, yn bennaf yn SPC, a £53m (2004 £34m cost) am gostau diswyddiad, a wrthbwyswyd gan elw o £27m (2004 £16m) oddi wrth gwerthiannau eiddo a busnes.

Adolygiad Ariannol (parhad)

Llog net derbyniadwy

Mae incwm cyllideb net o £49m (2004 £35m) yn cynnwys llog a enillwyd ar fuddsoddiadau £25m (2004 £26m), a wrthbwyswyd gan log taladwy ar fenthyciadau £25m (2004 £20m) a llog pensiynau tybiannol o £49m (2004 £29m). Bu gostyngiad o £1m yn y llog ar fuddsoddiadau oherwydd gweddillion buddsoddi cyfartalog is, oherwydd ariannu rhwydwaith cymdeithasol SPC sydd yn colli arian, a wrthbwyswyd gan gyfraddau llog uwch. Cynyddodd llog taladwy yn bennaf oherwydd benthyciadau uwch yn ein rhwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post® i ddisodli'r cyfalaf gweithredol di-log yn y rhwydwaith a ddarparwyd o'r blaen drwy ragariannu budd-daliadau. Mae'r incwm tybiannol o ariannu pensiynau wedi cynyddu £20m oherwydd enillion uwch ar asedion y cynllun pensiwn oedd yn fwy na gwrthbwyso cost llog ar ddyledion uwch y cynllun pensiwn.

Trethiant

Mae'r taliad trethiant o £45m (cyfradd adroddedig 33%) yn cynnwys £13m o dreth gyfredol daladwy ar elw tramor, taliad treth gohiriedig o £3m yn achos gweithrediadau tramor, taliad treth cyfredol yn y DG o £11m a thaliad treth gohiriedig yn y DG o £18m. Y llynedd, cofnodwyd taliad o £11m yn cynnwys £5m mewn taliad treth cyfredol yn achos gweithrediadau yn y DG a thaliad treth gohiriedig o £6m ar elw tramor. Digwydd y gyfradd adroddedig uchel oherwydd costau na ellir eu didynnu a threthi tramor, a wrthbwyswyd gan ryddhad trosglwyddol sydd i'w hawlio ar elw o werthu eiddo.

Llif arian a gwariant cyfalaf

Crynodeb o'r llif arian	2005 £m	2004 £m
Arian ar gyfer gweithrediadau	**(187)**	(112)
Difidendau a dderbyniwyd o gydfentrau a chyfranogion	**8**	14
Gwariant cyfalaf a gwarediadau	**(95)**	(55)
Treth, llog ac arall	**21**	24
Caffaeliadau a gwarediadau busnes	**5**	(3)
Gweithgareddau ariannu	**(2)**	61
Echlif arian net	**(250)**	(71)
Ychwanegu'n ôl:		
Rhannu mewn Llwyddiant	**218**	-
Eithriadau eraill yn ymwneud â'r llynedd	**259**	-
Llif arian o fewn y flwyddyn	**227**	(71)

Gwnaeth y Grŵp daliadau sylweddol o ran costau a gofnodwyd yn 2004-05, blwyddyn olaf y Cynllun Adnewyddu, sef £477m, yn bennaf Rhannu mewn Llwyddiant £218m, ac adlenwi pensiynau £208m. Mae'r tabl cyfagos yn dangos rhan o fantolen llif arian y Grŵp.

Arian ar gyfer gweithrediadau yw £187m (2004 £112m), sy'n cynnwys:

- Enillion Cyn Llog, Treth, Dibrisiant ac Amorteiddiad (EBITDA) o £224m (2004 £189m);
- Mewnlif cyfalaf gweithredol o £66m (2004 £87m echlif); a'r canlynol yn ymwneud â Chynllun Adnewyddu y llynedd:-
- Taliadau Rhannu mewn Llwyddiant o £218m yn ymwneud â Chynllun Adnewyddu y tair blynedd diwethaf (2004 £dim); a
- Thaliadau eraill yn ymwneud ag eitemau eithriadol o £259m (2004 £214m), gan gynnwys adlenwi pensiynau £208m (2004 £dim) a chostau rhesymoli pellach o £51m (2004 £214m) ar gyfer blwyddyn olaf ond un ac olaf y Cynllun Adnewyddu.

Daw'r difidendau o £8m (2004 £14m) a dderbyniwyd o gydfentrau a chyfranogion yn bennaf o Quadrant, £4m (2004 £2m) a Camelot, £3m (2004 £2m).

Mae'r gwariant cyfalaf net o warediadau o £95m (2004 £55m) yn cynnwys £122m (2004 £78m) o wariant, gan gynnwys cerbydau £48m, taliadau pellach ar gyfer y Ganolfan Bost Rhyngwladol ger Heathrow o £13m, a £27m ar gyfer prosiectau GLS, a'r gweddill ar gyfer gwella eiddo, a wrthbwyswyd gan fewnlif o £27m (2004 £23m), yn bennaf drwy waredu eiddo dros ben. Gwrthbwyswyd mewnlif treth a llog o £36m (2004 £34m) yn y flwyddyn gan echlifau gohiriedig o £15m (2004 £dim). Mae'r mewnlif o £5m o warediadau busnes (echlif 2004 = £3m), yn ymwneud â gwerthu RM Netherlands £1m a derbyn £4m drwy roi cytundeb allanol ar gyfer TG i Prism Alliance.

Darpariaethau

Roedd darpariaethau o £148m ar ddiwedd Medi 2005 (Mawrth 2005 £172m). Mae'r gostyngiad o £24m yn cynnwys gwario £51m mewn arian parod, trosglwyddo credydwyr pensiwn tymor byr gwerth £29m, a wrthbwyswyd gan £56m o ddarpariaethau newydd yn ymwneud â chytundebau eiddo rhwymedigaethus a rhesymoli.

Adolygiad Ariannol (parhad)

Pensiynau

Mae'r Grŵp bellach yn cydnabod diffyg pensiwn o £4,250m (Mawrth 2005 £3,958m) ar ei fantolen yn achos ei gynlluniau pensiwn gyda manteision diffiniedig. Mae'r cynnydd o £292m ers Mawrth 2005 yn cynrychioli'n bennaf golled actiwaraidd sy'n deillio o effaith cyfraddau bondiau AA disgynnol ar atebolrwydd yn hytrach na gwrthbwyso'r twf yng ngwerthoedd asedion y cynllun. Mae cydnabod y diffyg cyfrifyddu hwn yn golygu bod dyledion mantolen y Grŵp yn fwy na'i asedion am y tro cyntaf ers yr ymgorffori.

Seilir y rhagdybiadau allweddol parthed pensiynau ar amodau'r farchnad yn hanner cyntaf y flwyddyn a dyma hwy: chwyddiant 2.50% (2004 2.60%); cyfradd y cynnydd mewn cyflogau 4.00% (2004 4.10%); cyfradd y cynnydd mewn pensiynau 2.50% (2004 2.60%); a chyfradd disgownt 4.90% (2004 5.50%). Gall newidiadau bach yn y rhagdybiadau hyn gael effaith wirioneddol ar ganlyniadau'r Grŵp.

Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Grŵp yn gweithredu Trysorlys canolog sy'n rheoli rhyw £691m o'r asedion ariannol cyfredol, £241m o fuddsoddiadau sy'n cyfateb i arian, £916m o hylifedd dyledion a £849m o hylifedd arian, yn unol â rheolau buddsoddi a benthyca a osodir gan y Llywodraeth. Mae hefyd yn gweithredu fel banciwr mewnol i fusnes y Grŵp. Mae'r Grŵp yn ariannu ei weithrediadau i raddau helaeth drwy fenthyciadau ac elw a gadwyd.

Daw awdurdod Trysorlys y Grŵp drwy Fwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc, ac mae'n cyflwyno adroddiadau monitro chwarterol iddynt eu hadolygu. Nid oes gan y Trysorlys awdurdod ond i ymgymryd â gweithredoedd ariannol sydd yn ymwneud â rheoli risgiau busnes sylfaenol; nid yw'n ymhél â gweithredoedd hapfasnachol ac nid yw'n gweithredu fel canolfan elw. Mae pob strategaeth yn wrthwynebus i risg ac nid yw polisi'r Trysorlys wedi newid yn ystod y flwyddyn. Y prif offerynnau ariannol yw adneuon, giltiau a benthyciadau tymor hir a byr.

Yn ystod y flwyddyn cynnyddodd busnesau'r DG eu telerau credyd i gwsmeriaid o 21 diwrnod i 30, a'r canlyniad yw cynnydd o agos i £90m mewn cyfalaf gweithredol.

Ym Medi 2005, mae'r dyledion gros, sef £7,141m, £2,166m yn fwy na'r asedion gros o £4,975m yn bennaf oherwydd bod dyledion Grŵp y Post Brenhinol ccc £1,894m yn fwy na'i asedion ac yn ei dro mae hyn yn achosi toriad technegol yng nghyfleusterau Grŵp y Post Brenhinol ccc o £500m (a ddefnyddiwyd i brynu GLS yn Rhagfyr 1998). Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant i ddweud ei fod yn hepgor y toriad technegol hwn ym Medi 2005.

At hyn, mae Grŵp y Post Brenhinol ("GPB") wedi derbyn sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y llythyr hepgor fel a ganlyn: "The Shareholder is presently involved in discussions with RMG as to the Balance Sheet Issues.... In the meantime you have informed the Shareholder and the Lender that the decision of the directors of RMG to continue trading in its current insolvent state is in reliance on those Balance Sheet Issues being satisfactorily resolved in the near future. Furthermore, the Shareholder agrees that should the Shareholder in the future form the opinion that those Balance Sheet Issues are unlikely to be satisfactorily resolved within a reasonable time, the Shareholder will immediately inform the directors of RMG so that both they and the Lender can take appropriate steps in the light of that information."

Rheoleiddio

Ym Mehefin 2005 cyhoeddodd Postcomm eu *Cynigion Cychwynnol* ar gyfer trydydd cyfnod rheoli prisiau'r Post Brenhinol sydd i ddechrau ar 1 Ebrill 2006. Mae Postcomm yn cynnig parhau gyda rheolaeth RPI-X control, gyda X=3 ar gyfer cynhyrchion "caeth" ac X=2 ar gyfer cynhyrchion "di-gaeth". Gwrthododd y Post Brenhinol sawl agwedd ar gynigion Postcomm ac mae wedi ymateb gyda chynigion gwahanol ar 1 Medi 2005. Mae Postcomm yn ystyried ymateb y Post Brenhinol a hefyd ymatebion cyfranogion eraill cyn cyhoeddi eu *Cynigion Terynol* ar ddiwedd Tachwedd 2005.

Ym Mehefin 2005 cyhoeddodd Postcomm eu Dogfen Penderfynu ar ba wasanaethau swmp y dylid eu trin fel rhai cyffredinol. Penderfynodd Postcomm y dylai fod rhwymedigaeth generig ar y Post Brenhinol i gynnwys gwasanaeth swmp yn ei wasanaeth cyffredinol; ac y dylid gwneud hyn drwy Mailsort 1400 (Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, 0-2kg) a Cleanmail (Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth, 0-100g). Mae'r Post Brenhinol yn dal i gredu y dylid cyfyngu'r Gwasanaeth Cyffredinol i gynhyrchion cymdeithasol yn unig.

Wrth baratoi ar gyfer rhyddfreinio marchnad bost y DG yn llwyr yn Ionawr 2006, cyhoeddodd Postcomm Ddogfennau Penderfynu ar ddau God Ymarfer yn Awst: ar Integredd y Post a Gweithdrefnau Gweithredol Cyffredin. Mae'r Post Brenhinol wedi derbyn y ddau God Ymarfer a hefyd y newidiadau cysylltiedig i'r Drwydded.

Yn Awst 2005 penderfynodd Postcomm y ceir cyflwyno Prisio Cyfrannol, strywthur prisio arfaethedig y Post Brenhinol a seilir ar faint, o Awst 2006.

Adolygiad Ariannol (parhad)

Amod 9 Mynediad Gwaeredol

Mae uned fanwerthu'r Post Brenhinol wedi trin tua 380 miliwn eitem mynediad gwaeredol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cymharu â rhyw 87 miliwn eitem yn ystod 2004-05 i gyd. Mae'n rhagweld trin tua biliwn o eitemau erbyn diwedd y flwyddyn lawn. Daw 50% o'r meintiau drwy gytundebau'r cystadleuwyr eu hunain gyda'r Post Brenhinol, a'r gweddill drwy gwsmeriaid gyda chytundebau uniongyrchol gyda'r Post Brenhinol, a logisteg drwy gludwr arall. Ym Medi 2005, roedd 10 deiliad cytundeb a disgwylir i hyn godi i 20 erbyn Mawrth 2006. Wedyn, disgwylir i lwyr agor y farchnad achosi cynnydd sylweddol arall mewn meintiau a nifer y deiliaid cytundeb. Mae meintiau wythnosol wedi tyfu o 8 miliwn yn Ebrill 2005 i 23 miliwn ym Medi 2005, a disgwylir i gyfradd allanol y flwyddyn ariannol gyrraedd tua 30 miliwn eitem yr wythnos. Ar hyn o bryd mae traffig mynediad gwaeredol yn cyfrannu llai o elw am bob uned na'r traffig manwerthol cyfatebol.

Cronfeydd arbennig

Yn ystod y cyfnod, defnyddiwyd £75m o'r gronfa Rhwydwaith Gwledig gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig, sef yr arian roedd ei angen yn ystod y cyfnod i gynnal y rhwydwaith gwledig o ganghennau Swyddfa'r Post®.

Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

Ailfynegwyd canlyniadau'r Grŵp ar gyfer hanner cyntaf 2005-06 a chyfnodau tebyg yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cynhwysir effaith IFRS ar ganlyniadau blaenorol o fewn datganiadau IFRS cychwynnol y Post Brenhinol sydd i'w cyhoeddi ar 17 Tachwedd 2005. Mae'r datganiadau hyn i'w cael ar ein gwefan (www.royalmail.com).

Dadansoddiad cylchrannol– refeniw a phroffidioldeb

Mae refeniw allanol y Grŵp o £4,378m (2004 £4,327m) a'r elw gweithredol cyn eitemau eithriadol o £159m (2004 £132m) yn cynnwys y canlynol:

	Refeniw allanol		Elw/(colled) weithredol cyn eitemau eithriadol	
Perfformiad unedau busnes	**Hanner blwyddyn 2005 £m**	Hanner blwyddyn 2004 £m	**Hanner blwyddyn 2005 £m**	Hanner blwyddyn 2004 £m
Post Brenhinol	**3,316**	3,278	**168**	173
General Logistics Systems	**490**	418	**43**	23
Parcelforce Worldwide	**148**	138	**(1)**	(13)
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**420**	490	**(57)**	(58)
Busnesau eraill	**4**	3	**6**	7
Grŵp	**4,378**	4,327	**159**	132

Mae dadansoddiad pellach o'r canlyniadau, fesul uned, i'w weld isod:

Post Brenhinol	**2005 £m**	2004 £m
Refeniw allanol	**3,316**	3,278
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**168**	173

Tyfodd refeniw allanol £38m (1.2%) i £3,316m, sydd yn ganlyniad i gynnydd mewn prisiau cyfartalog o 1.8%, cynnydd sylfaenol is na chwyddiant mewn meintiau a ddosbarthwyd sef 0.7% (ac eithrio cynhyrchion 0-ddrws-i-ddrws a Rhyngwladol), a wrthbwyswyd gan ostyngiad annisgwyl mewn cynhyrchion manwerthu gan gynnwys stampiau, mesuryddion a Mailsort,sef y gostyngiad cyntaf mewn 25 mlynedd. Bu cynnydd mewn prisiau ar draws y rhan fwyaf o'r cynhyrchion fel a ganiateir gan y rheolaeth bresennol ar brisiau sydd yn caniatáu i'r Post Brenhinol gynyddu ei brisiau RPI-1%.

Mae'r gostyngiad o £5m (2.9%) mewn elw gweithredol yn cael ei yrru gan arafiad annisgwyl yn y cynnydd mewn refeniw y mae cynnydd is na chwyddiant mewn costau net o 0.7% yn fwy na'i gwrthbwyso – ac mae costau pobl yn dangos cynnydd o £151m (6.1%), a wrthbwysir yn rhannol gan leihad mewn costau di-bobl o £121m (7.0%).

Adolygiad Ariannol (parhad)

General Logistics Systems	2005 £m	2004 £m
Refeniw allanol	**490**	418
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**43**	23

Bu codiad o £72m (17.2%) mewn refeniw allanol gan gynnwys effaith gadarnhaol o £8m oherwydd cryfhau'r Ewro. Mae'r twf sylfaenol o £64m (15.3%) yn deillio o dwf cryf mewn meintiau parseli craidd ac ehangu pellach ym Mhwyl a'r Eidal. Cynyddodd elw gweithredol £20m (87.0%), o £23m y llynedd i £43m eleni oherwydd refeniw uwch a gwell effeithlonrwydd gweithredol.

Parcelforce Worldwide	2005 £m	2004 £m
Refeniw allanol	**148**	138
Colled weithredol cyn eitemau eithriadol	**(1)**	(13)

Cododd trosiant allanol £10m (7.2%) wrth i Parcelforce Worldwide weld manteision ei ailffocysu ei gyfeiriad masnachol.

Mae gweithrediadau'n dal i ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd a chostau a bu gwelliant o 10% o'i gymharu â'r llynedd mewn effeithlonrwydd gweithredol. Mae costau gweithredol yn unol 0226 llynedd tra'n cynnwys 8% o feintiau ychwanegol. Er bod costau gweithredol wedi gwella, roedd cynnydd yn erbyn adolygiadau cynlluniedig yn arafach nag a ddisgwylid, gan adlewyrchu trafodaeth hir – ond llwyddiannus yn y pen draw – gyda'r Communication Workers Union (CWU) ynghylch cyfnod olaf ailstrythuro depos. Gwrthbwyswyd gwelliannau cryf mewn costau pobl, cerbydau a logisteg i raddau gan gostau trosglwyddo rhyngwladol uwch wrth i feintiau rhyngwladol gynyddu. Mae colledion gweithredol o £1m yn welliant o £12m (92.3%) ers yr hanner blwyddyn diwethaf.

Swyddfa'r Post Cyfyngedig	2005 £m	2004 £m
Refeniw allanol	**420**	490
Colled weithredol cyn eitemau eithriadol	**(57)**	(58)

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gweithredu rhwydwaith o 14,542 o allfeydd manwrthu. Bu gostyngiad o £70m (14.3%) mewn refeniw oherwydd bod llai o refeniw o fudd-daliadau oherwydd y newid i dalu budd-daliadau'n uniongyrchol ond gwrthbwyswyd hyn gan dwf pellach mewn refeniw bancio a chynhyrchion newydd eraill fel Gwasanaethau Ariannol Swyddfa'r Post a Homephone.

Bu gostyngiad o £1m (1.7%) mewn colledion gweithredol yn bennaf oherwydd ennill llifoedd refeniw newydd yn ogystal â ffocws parhaol y rheolwyr ar leihau costau, a wrthbwyswyd gan leihad mewn budd-daliadau a chyfran o golledion cychwynnol lansio'r cynhyrchion gwasanaethau ariannol newydd. Mae costau pobl sylfaenol wedi gostwng £6m oherwydd yr ymgyrch barhaol i leihau costau canolog.

Busnesau eraill	2005 £m	2004 £m
Refeniw allanol	**4**	3
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**6**	7

Mae busnesau eraill y Grŵp yn cynnwys Romec, ein gweithrediad rheoli cyfleusterau (51% isgwmni), NDC, ein gweithrediad peirianneg adeiladu (51% isgwmni) Quadrant, gwasanaethau arlwyo (51% cyfranogion) a Camelot, gweithredwr loteri'r DG (20% cyfranogion). Er bod cynnydd o £4m (2004 £3m) mewn refeniw allanol, mae elw gweithredol £1m yn is, yn bennaf oherwydd difidend llai yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn gan Camelot. Cynhwysir canlyniadau cyfranogion a chydfentrau nas delir yn ganolog (Bureau de Change a gwasanaethau ariannol) yng nghanlyniadau Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Y Ffordd Ymlaen

Cafwyd y gwelliant mewn perfformiad o flwyddyn i flwyddyn oherwydd ein busnesau parseli anrheoledig. Bu SPC yn llwyddiannus o ran cadw ei golledion ar lefel y llynedd er iddo golli rhan sylweddol a gwrethfawr o'i lif refeniw gyda budd-daliadau'r Llywodraeth. Disgwyliwn berfformiad tebyg gan y busnesau hyn yn ail hanner y flwyddyn.

Mae'r gostyngiad mewn proffidioldeb yn y Post Brenhinol, oherwydd gostyngiadau annisgwyl mewn meintiau manwerthu a refeniwau i lefelau is na chwyddiant – na chafwyd ers rhyw 25 mlynedd – yn parhau yn ystod ail hanner y flwyddyn a disgwylir y bydd yn cyflymu wrth i gwsmeriaid newid i gynhyrchion Access rhatach. O gofio natur sefydlog ein sylfaen gostau mewn gweithrediadau post, ychydig o hyblygrwydd sydd yn yn tymor byr ac yn enwedig mewn dosbarthu i rwyddhau costau yn unol â'r gostyngiad mewn meintiau a'r newid yn y gymysgedd gynhyrchion.

Mae pedwar digwyddiad arwyddocaol a ddisgwylir yn ystod ail hanner y flwyddyn a allai gael effaith wirioneddol ar sefyllfa ariannol y Grŵp, ei hyfywedd ariannol parhaol, a'i allu i barhau i fasnachu mewn busnes dichonadwy a chyflawni ei rwymedigaethau:

Adolygiad Ariannol (parhad)

- Sut y bydd Postcomm yn trin y diffyg yn y gronfa bensiynau, gofynion cyfalaf a buddsoddi'r dyfodol, gostyngiad meintiau a chyfraniadau yn y dyfodol a risgiau amnewidion electronig, targedau effeithlonrwydd cyraeddadwy o gofio natur sefydlog sail gostau'r busnes llythyrau a'r hinsawdd cydberthynas ddiwydiannol, a sut y bydd yn caniatáu i'r Post Brenhinol ymateb i ddyfodiad cystadleuaeth;
- Sut y bydd Postcomm yn sicrhau bod dyfodiad cystadleuwyr yn briodol pan fo marchnad bost y DG yn gwbl agored i gystadleuaeth yn Ionawr 2006;
- Sut y datrysir gofynion hirdymor Swyddfa'r Post Cyfyngedig gyda'i riant, ei riant yn y pen draw a'r Llywodraeth; a
- Sut y bydd y diffyg yn y gronfa bensiynau a chyfnewidioldeb, sydd wedi peri bod dyledion mantolen y Grŵp yn fwy na'i asedion, yn cael ei ddatrys yn barhaol a sut i drin y cyfyngiadau ychwanegol a osodir gan y rheoliadau pensiwn newydd i dalu dyledion dros gyfnod byrrach na chynt.

Mae pob un o'r uchod yn heriau mawr i'r Grŵp eu goresgyn os ydym i barhau i dyfu a datblygu proffidioldeb yn erbyn cefndir cystadleuol ac economaidd cynyddol a mwyfwy heriol.

Marisa Cassoni

Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

17 Tachwedd 2005

Ailfynegwyd ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a nodwyd ar gyfer effaith y trosglwyddo i Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Adroddiad Adolygiad Annibynnol i Ddaliadau'r Post Brenhinol ccc

Rhagarweiniad

Gofynnwyd i ni gan y Cwmni i adolygu gwybodaeth ariannol yr hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005, sydd yn cynnwys Crynodeb o ddatganiad incwm y Grŵp, Crynodeb o ddatganiad o incwm a chostau cydnabyddedig y Grŵp, Crynodeb o fantolen y Grŵp, Crynodeb o ddatganiad llif arian y Grŵp a nodiadau cysylltiedig 1 i 8.

Gwneir yr adroddiad hwn i'r Cwmni yn unig ac yn unol â chanllawiau a geir ym Mwletin 1999/4 'Adolygu gwybodaeth ariannol interim' a gyhoeddir gan yr Auditing Practices Board. I'r graddau hwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un ar wahân i'r Cwmni am ein gwaith, yr adroddiad hwn, na'r casgliadau a ffurfiwyd gennym.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr yw'r Adroddiad Interim, gan gynnwys y wybodaeth ariannol a gynhwysir ynddo, a chafodd ei gymeradwyo ganddynt. Fel a ddatgelir yn nodyn 1, paratoir datganiadau ariannol blynyddol nesaf y Grŵp yn unol â'r IFRS a fabwysiadwyd i'w defnyddio gan yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu'n gyson â'r rhai y bwriada'r cyfarwyddwyr eu defnyddio yn y datganiadau ariannol nesaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall y cyfarwyddwyr benderfynu bod angen newidiadau i'r polisïau hyn wrth baratoi'r datganiadau ariannol blynyddol llawn am y tro cyntaf yn unol â'r IFRS a fabwysiadwyd i'w defnyddio gan yr Undeb Ewropeaidd. Y rheswm am hyn yw bod y cyfarwyddwyr, fel a ddatgelir yn nodyn 1, wedi rhagweld y bydd yr IAS 19 diwygiedig, sydd hyd yma heb ei fabwysiadu yn y GE, yn cael ei fabwysiadu mewn pryd i fod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol blynyddol nesaf.

Gwaith adolygu a wnaed

Cynalasom ein hadolygiad yn unol â chanllawiau a geir ym Mwletin 1999/4 'Adolygu gwybodaeth ariannol interim' a gyhoeddir gan yr Auditing Practices Board i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Gyfunol. Mae adolygiad yn cynnwys, yn bennaf, wneud ymholiadau gyda rheolwyr y Grŵp a chymhwyso gweithdrefnau dadansoddol i'r wybodaeth ariannol a'r data ariannol sylfaenol, ac ar sail hynny asesu a ddefnyddiwyd y polisïau a'r cyflwyniad cyfrifyddu'n gyson, oni nodir yn wahanol. Nid yw adolygiad yn cynnwys gweithdrefnau archwilio fel profi rheolaethau a gwirio asedion, dyledion a gweithrediadau. Mae ei sgôp yn llai o lawer nag archwiliad a gyflawnir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon) ac felly cynigir lefel is o sicrwydd nag archwiliad. Felly, nid ydym yn mynegi barc archwilio am y wybodaeth ariannol.

Casgliad yr adolygiad

Ar sail ein hadolygiad, ni wyddom am unrhyw newidiadau sylweddol y dylid eu gwneud i'r wybodaeth ariannol interim ia gyflwynir ar gyfer y 26 wythnos a ddaeth i ben ar 25 Medi 2005.

Ernst & Young LLP

Llundain

17 Tachwedd 2005

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Crynodeb o Ddatganiad Incwm y Grŵp anarchwiliedig

ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005

	Nodiadau	25 Medi 2005 £m	26 Medi 2004* £m	27 Mawrth 2005* £m
Refeniw	3	**4,378**	4,327	8,956
Costau pobl		**(2,629)**	(2,478)	(5,138)
Cyflogau		**(2,199)**	(2,086)	(4,330)
Pensiynau		**(268)**	(237)	(489)
Nawdd cymdeithasol		**(162)**	(155)	(319)
Costau dosbarthu a throsglwyddo		**(454)**	(400)	(879)
Costau gweithredol eraill		**(1,155)**	(1,330)	(2,665)
Cyfran o elw gan gyfranogion a chydfentrau		**19**	13	28
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol		**159**	132	302
Gweithredu eitemau eithriadol	4	**(99)**	(115)	(277)
Elw gweithredol		**60**	17	25
Elw/(colled) ar waredu isymgymeriadau		**5**	-	(3)
Elw ar waredu eiddo, peiriannau ac offer		**22**	16	70
Elw cyn ariannu a threth		**87**	33	92
Costau ariannu		**(25)**	(20)	(42)
Incwm ariannu	5	**74**	55	117
Elw cyn treth		**136**	68	167
Treth	6	**(45)**	(11)	(16)
Elw dros y cyfnod		**91**	57	151
Elw priodoladwy i:				
Ddeiliad ecwiti y rhiant gwmni		**92**	57	151
Budd lleiafrifol		**(1)**	-	-

Crynodeb o Ddatganiad Incwm a Chostau Cydnabyddedig y Grŵp anarchwiliedig

ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005

	25 Medi 2005 £m	26 Medi 2004* £m	27 Mawrth 2005* £m
Gwahaniaethau cyfnewid ar arian tramor net	**(6)**	-	8
Gweddillion a gydnabuwyd wrth fabwysiadu IAS 32 a 39**	**(3)**	-	-
Enillion gwerth teg ar danwydd ac arian tramor	**5**	-	-
Colledion gwarchodol ailgylchedig a nodwyd dan elw	**(3)**	-	-
(Colledion)/enillion actiwaraidd ar gynlluniau manteision diffiniedig	**(251)**	59	410
Treth ar eitemau a gymerwyd yn syth i ecwiti	**39**	12	367
Incwm net a gydnabuwyd yn syth i ecwiti	**(219)**	71	785
Elw dros y cyfnod	**91**	57	151
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig y cyfnod	**(128)**	128	936
Priodoladwy i:			
Ddeiliad ecwiti y rhiant gwmni	**(127)**	128	932
Budd lleiafrifol	**(1)**	-	4

* Ailfynegwyd ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a nodwyd ar gyfer effaith y trosglwyddo i Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Gweler nodyn 1.

** Fel a nodir yn nodyn 1, ar 28 Mawrth 2005 ailfynegwyd y fantolen ar gyfer effeithiau IAS 32 ac IAS 39.

Crynodeb o Fantolen y Grŵp anarchwiliedig
ar 25 Medi 2005

	Nodia dau	25 Medi 2005 £m	26 Medi 2004* £m	27 Mawrth 2005** £m
Asedion				
Eiddo, peiriannau ac offer		**1,588**	1,552	1,591
Ewyllys da		**129**	115	131
Asedion anghyffwrdd		**16**	15	21
Ariannol asedion/Buddsoddiadau		**149**	135	138
Eitemau derbyniadwy eraill		**11**	18	14
Asedion treth gohiriedig		**331**	-	334
		2,224	1,835	2,229
Asedion cyfredol				
Stocrestrau		**24**	32	27
Eitemau derbyniadwy masnach ac eraill		**911**	923	1,091
Asedion/Buddsoddiadau ariannol		**691**	693	691
Arian a chyfatebolion arian		**1,090**	1,294	1,340
Deilliaid		**11**	-	-
		2,727	2,942	3,149
Asedion anghyfredol i'w gwerthu		**24**	-	-
Cyfanswm asedion		**4,975**	4,777	5,378
Dyledion cyfredol				
Masnach ac eitemau taladwy eraill		**(1,778)**	(2,257)	(2,352)
Treth incwm taladwy		**(14)**	(18)	-
Dyledion ariannol – gorddrafftiau banc a		**(400)**	(150)	(375)
Darpariaethau tymor byr		**(84)**	(195)	(124)
Deilliaid		**(1)**	-	-
		(2,277)	(2,620)	(2,851)
Dyledion anghyfredol				
Dyledion ariannol – benthyciadau â llog		**(504)**	(509)	(506)
Rhwymedigaethau manteision ymddeol		**(4,250)**	(4,402)	(3,958)
Darpariaethau tymor hir		**(64)**	(54)	(48)
Dyledion treth gohiriedig		**(5)**	(1)	(5)
Eitemau taladwy eraill		**(41)**	(40)	(48)
		(4,864)	(5,006)	(4,565)
Cyfanswm Dyledion		**(7,141)**	(7,626)	(7,416)
Dyledion Net		**(2,166)**	(2,849)	(2,038)
Ecwiti				
Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn	7	**(2,169)**	(2,849)	(2,042)
Eqcwiti priodoladwy i ddeiliad ecwiti ent company		**(2,169)**	(2,849)	(2,042)
Budd lleiafrifol		**3**	-	4
Cyfanswm ecwiti		**(2,166)**	(2,849)	(2,038)

* Ailfynegwyd ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a nodwyd ar gyfer effaith y trosglwyddo i Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Gweler nodyn 1.

** Fel a nodir yn nodyn 1, ar 28 Mawrth 2005 ailfynegwyd y fantolen ar gyfer effeithiau IAS 32 ac IAS 39.

Cymeradwywyd y cyfrifon ar dudalennau 15 i 21 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 17 Tachwedd a llofnodwyd hwy ar ei ran gan:

Allan Leighton Marisa Cassoni

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Crynodeb o Ddatganiad Llif Arian y Grŵp anarchwiliedig

ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005

Llif arian o weithgareddau gweithredol	25 Medi 2005 £m	26 Medi 2004* £m	27 Mawrth 2005* £m
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**159**	132	302
Dibrisiant ac amorteiddiad	**84**	70	148
Symudiadau di-arian eraill (elw gan gyfranogion a chydfentrau)	**(19)**	(13)	(28)
	224	189	422
Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol	**66**	(87)	(387)
Taliadau arian yn achos eitemau eithriadol	**(477)**	(214)	(255)
Arian a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithrediadau	**(187)**	(112)	(220)
Treth incwm a adenillwyd	**11**	8	13
Echlif arian net o weithgareddau gweithredol	**(176)**	(104)	(207)
Echlif arian weithgareddau buddsoddi			
Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer	**27**	23	95
Difidendau gan gyfranogion a chydfentrau	**8**	14	19
Incwm o fuddsoddi (llog) a dderbyniwyd	**25**	26	52
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	**(122)**	(78)	(219)
Talu ystyriaethau gohiriedig yn ahcos caffaeliadau'r flwyddyn flaenorol	**(15)**	-	(2)
Gwaredu isymgymeriaidau	**5**	(3)	-
Prynu asedion ariannol eraill	**-**	(10)	(8)
Echlif arian net o weithgareddau buddsoddi	**(72)**	(28)	(63)
Echlif arian net cyn gweithgareddau ariannu	**(248)**	(132)	(270)
Echlif arian o weithgareddau ariannu			
Talu dyledion prydles cyllid	**-**	(17)	(34)
Ad-dalu benthyciadau	**(2)**	(3)	(4)
Costau (llog) ariannu a dalwyd	**(25)**	(21)	(42)
Benthyciadau newydd	**25**	102	325
(Echlif)/mewnlif arian net o weithgareddau ariannu	**(2)**	61	245
Gostyngiad net mewn arian a chyfatebolion arian	**(250)**	(71)	(25)
Arian a chyfatebolion arian ar ddechrau'r cyfnod	**1,340**	1,365	1,365
Arian a chyfatebolion arian ar ddiwedd y cyfnod	**1,090**	1,294	1,340

* Ailfynegwyd ffigyrau'r flwyddyn flaenorol a nodwyd ar gyfer effaith y trosglwyddo i Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Nodiadau i'r Adroddiad Interim Anarchwiliedig

ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005

1 Sail y paratoi

Yn y gorffennol paratôdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc ei ddatganiadau ariannol cynradd dan yr UK Generally Accepted Accounting Practice (UK GAAP). Gan ddechrau yn y flwyddyn gyfrifyddu 2005-06 bydd y Post Brenhinol yn cynhyrchu datganiadau ariannol cyfun consolidated ariannol yn unol â'r IFRS a fabwysiadwyd i'w defnyddio gan yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Cyflwynir y datganiadau ariannol hyn yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 1, "Cyflwyno Datganiadau Ariannol". Lle nad oes arweiniad penodol yn IAS 1, defnyddiwyd dull UK GAAP er mwyn cadw cysondeb â blynyddoedd blaenorol. Felly, parhawyd i ddefnyddio'r termau 'elw gweithredol' a 'gweithredu eitemau eithriadol' yn y datganiadau ariannol a chynhwysir eu diffiniadau yn adran polisïau cyfrifyddu dogfen Datganiadau Ariannol Cychwynnol IFRS. Gall y bydd angen newid fformat a chyflwyniad y datganiadau ariannol hyn os cyhoeddir canllawiau pellach, ond fel arall cred y Cwmni y bydd y sail a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau ariannol hyn yn ddigonol i'w alluogi i gydymffurfio'n llawn gydag IFRS yn ei ddatganiadau ariannol blynyddol am y flwyddyn a ddiwedda 26 Mawrth 2006 heb newidiadau sylweddol pellach un ai i'r fformat a'r cyflwyniad nac i'r wybodaeth ariannol gymharol a gynhwysir yma.

Mae canlyniadau'r hanner blwyddyn a ddiweddodd 25 Medi 2005 yn cynrychioli datganiadau ariannol interim cyntaf y Grŵp a baratowyd yn unol â pholisïau cyfrifyddu dan IFRS a defnyddiant y confensiwn costau hanesyddol ac eithrio offerynnau ariannol deilliadol a fesurwyd yn ôl gwerth teg.

Datganiadau blynyddol IFRS cyntaf y Grŵp fydd y rheini ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 26 Mawrth 2006. Paratowyd y datganiadau ariannol interim gydag IFRS y disgwylir iddynt ford yn weithredol a chael eu cymeradwyo gan yr Undeb Ewropeaidd erbyn 26 Mawrth 2006. Mae'r IFRS yn cael eu hadolygu'n barhaol a gellir eu diwygio gan ganllawiau dehongli gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) ac felly maent yn amodol i newid, yn benodol y newid i IAS 19, 'Buddion Gweithwyr', sydd yn caniatáu i enillion a cholledion actiwaraidd gael eu cydnabod yn llawn drwy gronfeydd wrth gefn. Diweddarir y datganiadau ariannol a'u hailfynegi yn ôl angen ar gyfer y cyfryw newidiadau os digwyddant.

Fel a ganiateir dan IFRS 1, Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf, mae'r rheolwyr wedi dewis peidio ag ailfynegi gwybodaeth gymharol ar gyfer safonau offerynnau ariannol IAS 32 Offerynnau Ariannol: datgelu a chyflwyno ac IAS 39 Offerynnau Ariannol: cydnabod a mesur. Cynhwysir ailddatganiad o'r fantolen gychwynnol ar 28 Mawrth 2005, i gyflwyno sefyllfa agoriadol y Grŵp yn 2005, yn y datganiadau ariannol cychwynnol IFRS.

Cyhoeddwyd datganiadau ariannol cychwynnol IFRS ar 17 Tachwedd 2005 ac maent ar gael ar wefan y Grŵp. Mae'r ddogfen gyhoeddedig yn egluro sut yr adroddir perfformiad a sefyllfa ariannol y Grŵp a gyhoeddwyd eisoes yn cael eu hadrodd dan IFRS ac mae'n cynnwys y polisïau newydd a fabwysiadwyd. Mae'r ddogfen gyhoeddedig yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol a ailfynegwyd ar sail yr IFRS:

- Mantolen gyfun y Grŵp ar 29 Mawrth 2004, dyddiad newid y Grŵp;
- Datganiadau cychwynnol y Grŵp: Datganiad Incwm, Datganiad o incwm a chostau cydnabyddedig (SORIE) a datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 27 Mawrth 2005, a mantolen ar 27 Mawrth 2005;
- Mantolen y Grŵp ar 28 Mawrth 2005 yn adlewyrchu mabwysiadiad IAS 32 ac IAS 39 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-06; a
- Datganiadau cychwynnol y Grŵp, Datganiad Incwm, SORIE a datganiad llif arian y cyfnod a ddiweddodd 26 Medi 2004, a mantolen ar 26 Medi 2004.

2 Ariannu

Grŵp y Post Brenhinol ccc

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth ynghylch cryfhau mantolen y Cwmni, sy'n dangos dyledion sydd .9bn. yn fwy na'i asedion. Cododd y sefyllfa hon gydag asedion negyddol yn bennaf oherwydd cyfrifyddu ar gyfer y diffyg o fewn ei gynllun pensiwn allweddol, Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol, dan y safonau cyfrifyddu newydd a dyma'r prif reswm bod y Post Brenhinol heb dalu yn achos ei gyfleusterau benthyca gyda'r Llywodraeth. Mae'r Post Brenhinol wedi derbyn hepgoriadau ffurfiol gan yr Adran dros Fasnach a Diwydiant, yn ei rôl fel benthyciwr, ar gyfer y dyledion hyn a chred y bydd canlyniadau boddhaol i'w drafodaethau gyda'r Llywodraeth am ei fantolen a'i gyllideb yn y dyfodol.

Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Roedd gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig ddyledion net cyfredol o £339m ar 25 Medi 2005 ac mae'n parhau i weithredu am golled. I fod yn hyfyw yn y tymor hirach, datblygir busnesau newydd a phroffidiol yn lle'r cyfraniad a golwyd drwy fudd-daliadau. Felly mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn dibynnu ar hyn o bryd ar gefnogaeth ariannol barhaol gan ei riant cwmni yn y pen draw, Daliadau'r Post Brenhinol Holdings ccc.

Cytunwyd ar hyd at £300m ar gyfer y rhwydwaith gwledig tan fis Mawrth 2008, yn amodol ar broses clirio Cymorth y Wladwriaeth sydd heb ei chwblhau hyd yma.

Cwblhaodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig drafodaethau llwyddiannus gyda'i riant, rhiant yn y pen draw a'r Llywodraeth i roi cyfalaf ychwanegol ar gyfer gofynion ariannu tymor byr gwerth £145m tan fis Mawrth 2007. Wedi hynny, bydd angen arian ychwanegol i ailariannu gweithrediadau'r Cwmni, gan gynnwys y cyfleusterau cyfalaf gweithredol presennol gwerth £1.15bn, a fydd yn aeddfedu ym Mawrth 2010.

Fel rhan o'r trafodaethau ar ariannu, mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi cychwyn ar broses gyda'i riant, ei riant yn y pen draw a'r Llywodraeth i adolygu goblygiadau ariannu dychwelyd y busnes i broffidioldeb a gofynion cyfalaf y Cwmni. Tra bydd y trafodaethau hyn yn parhau, mae Cyfarwyddwyr Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn ffyddiog y bydd y busnes yn medru cyflawni rhwymedigaethau yn y dyfodol pan ddaw eu tro.

Nodiadau ar yr Adroddiad Interim Anarchwiliedig

Mae Cyfarwyddwyr Swyddfa'r Post Cyfyngedig o'r farn ei bod yn briodol bod ei gyfrifon yn cael eu paratoi fel busnes dichonadwy gan ragdybio'r canlynol:

- bod y £300m ar gyfer ariannu gwledig yn cael y cliriad Cymorth y Wladwriaeth priodol;
- y bydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn dargedau refeniw a gwariant; ac
- y ceir ateb boddhaol i ofynion ariannol hirdymor Swyddfa'r Post Cyfyngedig gyda'i riant, ei riant yn y pen draw a'r Llywodraeth o fewn yr amserlen a gytunwyd.

Ar sail y trefniadau uchod, mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn ei bod yn briodol cynnwys Grŵp y Post Brenhinol ccc a Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn y cyfrifon cyfun fel busnesau dichonadwy.

3 Gwybodaeth gylchrannol

Mae'r Grŵp yn datgelu ei ganlyniadau cylchrannol mewn pum dosbarth o fusnes: Post Brenhinol, Parcelforce Worldwide, Swyddfa'r Post Cyfyngedig , General Logistics Systems a busnesau eraill. Mae'r olaf yn cynnwys dau isgwmni a berchnogir yn rhannol – Romec Limited a NDC 2000 Cyfyngedig - a buddsoddiadau'r Grŵp yn y gydfenter a'r cyfranogion canlynol – Quadrant Catering Cyfyngedig a Grŵp Camelot ccc.

Dadansoddiad o'r refeniw fesul dosbarth busnes ac ardal ddaearyddol

	Hanner blwyddyn i 25 Medi 2005			Hanner blwyddyn i 26 Medi 2004*			Blwyddyn i 27 Mawrth 2005*		
	£m			£m			£m		
	Cyf. refeniw	**Refeniw rhwng segmentau**	**Refeniw allanol**	Cyf. refeniw	Refeniw rhwng segmentau	Refeniw allanol	Cyf. refeniw	Refeniw rhwng segmentau	Refeniw allanol
Post Brenhinol	**3,368**	**(52)**	**3,316**	3,293	(15)	3,278	6,850	(87)	6,763
Parcelforce Worldwide	**150**	**(2)**	**148**	144	(6)	138	313	(15)	298
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**575**	**(155)**	**420**	639	(149)	490	1,287	(311)	976
Busnesau eraill	**4**	**-**	**4**	3	-	3	6	-	6
Cyfanswm gweithrediadau'r DG	**4,097**	**(209)**	**3,888**	4,079	(170)	3,909	8,456	(413)	8,043
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	**490**	**-**	**490**	418	-	418	913	-	913
Cyfanswm	**4,587**	**(209)**	**4,378**	4,497	(170)	4,327	9,369	(413)	8,956

Gosodir y prisiau trosglwyddo rhwng segmentau'r busnes yn ôl taliadau a bennir drwy drafod gyda'r busnesau perthnasol.

Dadansoddiad o'r elw/(colled) weithredol cyn eitemau eithriadol fesul dosbarth busnes ac ardal ddaearyddol

	Hanner blwyddyn i 25 Medi 2005	Hanner blwyddyn i 26 Medi 2004*	Blwyddyn i 27 Mawrth 2005*
	£m	£m	£m
Post Brenhinol	**168**	174	348
Parcelforce Worldwide	**(1)**	(13)	(7)
Swyddfa'r Post Cyfyngedig	**(70)**	(65)	(139)
Busnesau eraill	**-**	-	-
Cyfanswm gweithrediadau'r DG	**97**	96	202
General Logistics Systems (Ewrop yn bennaf)	**43**	23	72
Cyfanswm cyn cyfran o'r elw o'r cyfranogion a chydfentrau	**140**	119	274
Cyfran o'r elw o'r cyfranogion a chydfentrau	**19**	13	28
Cyfanswm	**159**	132	302

O'r gyfran o'r elw o £19m (2004 £13m) o'r cydfentrau a'r cyfranogion, mae £13m (2004 £7m) yn ymwneud â buddsoddiadau a reolir gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig ac mae £6m (2004 £6m) yn ymwneud â buddsoddiadau a reolir yn ganolog ac felly fe'u trinnir o fewn Busnesau eraill. I ddibenion yr Adolygiad Ariannol a Gweithredol dyrennir y symiau hyn yn ôl i ddadansoddiadau elw gweithredol yr unedau busnes perthnasol. Dyrannwyd elw arall o £dim (2004 £1m) a gynhyrchwyd gan Fusnesau eraill i'r Post Brenhinol i ddibenion y dadansoddiad cylchrannol hwn.

* Ailfynegwyd y canlyniadau i ddangos effaith newid i'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Nodiadau ar yr Adroddiad Interim Anarchwiliedig (parhad)

4 Gweithredu eitemau eithriadol

	25 Medi 2005 £m	26 Medi 2004 £m	27 Mawrth 2005 £m
Rhannu mewn Llwyddiant	**(38)**	(80)	(218)
Amhariad ar asedion sefydlog diriaethol	**(8)**	(1)	(23)
Diswyddo	**(53)**	(34)	(36)
Cyfanswm	**(99)**	(115)	(277)

5 Incwm Ariannu

	25 Medi 2005 £m	26 Medi 2004 £m	27 Mawrth 2005 £m
Incwm Buddsoddi	**25**	26	58
Llog tybiannol pensiynau	**49**	29	59
Cyfanswm	**74**	55	117

6 Treth

Cyfrifir y taliad treth cyffredinol drwy gymhwyso'r cyfraddau treth effeithiol a ragwelir i'r elw interim a adroddir ar ôl addasu ar gyfer eitemau eithriadol. Mae'r taliad treth o £45m (2004 ailfynegwyd am hanner blwyddyn, taliad treth o £11m ac ailfynegwyd am flwyddyn lawn, a taliad treth o £16m), yn cynnwys treth gyfredol dramor o £13m (2004 ailfynegwyd am hanner blwyddyn, taliad o £6m ac ailfynegwyd am flwyddyn lawn, taliad o £12m), taliad treth dramor gohiriedig o £3m (2004 ailfynegwyd am hanner blwyddyn, £dim, ailfynegwyd am flwyddyn lawn, credyd o £23m) a threth gyfredol y DG o £11m (2004 ailfynegwyd am hanner blwyddyn, taliad o £5m, ailfynegwyd am flwyddyn lawn, taliad treth o £8m) a threth ohiriedig y DG o £18m (2004 ailfynegwyd am hanner blwyddyn, £dim, ailfynegwyd am flwyddyn lawn a thaliad o £19m).

7 Cyfanswm ecwiti

	Enillion a gadwyd £m	Post £m	Rhwydwaith Gwledig £m	Trosi Arian Tramor £m	Cronfa warchodol £m	Arall £m	Deiliad ecwiti'r rhiant £m	Buddiannau lleiafrifol £m	Cyfanswm ecwiti £m
Ar 28 Mawrth 2005	(3,085)	801	171	8	-	63	**(2,042)**	**4**	**(2,038)**
Ailddatganiad ar gyfer effeithiau IAS 32 a IAS 39	(11)	-	-	-	8	-	**(3)**	**-**	**(3)**
Ecwiti agoriadol a ailfynegwyd ar 28 Mawrth 2005	(3,096)	801	171	8	8	63	**(2,045)**	**4**	**(2,041)**
Elw'r cyfnod	92	-	-	-	-	-	**92**	**(1)**	**91**
Colledion actiwaraidd ar gynlluniau buddion diffiniedig	(251)	-	-	-	-	-	**(251)**	**-**	**(251)**
Treth ar eitemau a gymerwyd yn syth i ecwiti	39	-	-	-	-	-	**39**	**-**	**39**
Trosglwyddo cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig	75	-	(75)	-	-	-	**-**	**-**	**-**
Trosglwyddo Incwm Llog	(22)	18	4	-	-	-	**-**	**-**	**-**
Gwahaniaethau trosi	-	-	-	(6)	-	-	**(6)**	**-**	**(6)**
Enillion/(colledion) net ar gronfeydd gwarchod tanwydd ac arian tramor	-	-	-	-	2	-	**2**	**-**	**2**
Ar 25 Medi 2005	(3,163)	819	100	2	10	63	**(2,169)**	**3**	**(2,166)**

Fel a nodir yn nodyn 1, ar 28 Mawrth 2005 ailfynegwyd y cronfeydd wrth gefn ar gyfer effeithiau IAS 32 ac IAS 39.

Nodiadau ar yr Adroddiad Interim Anarchwiliedig (parhad)

Cymhwyswyd y gronfa wrth gefn ar gyfer y Rhwydwaith Gwledig hyd at £75m sy'n cynrychioli'r arian oedd ei angen yn ystod y cyfnod i gynnal y rhwydwaith gwledig o ganghennau Swyddfa'r Posts.

Mae trosglwyddo llog yn ymwneud ag incwm a gofnodwyd yn y cyfrif elw a cholled, a enillwyd ar yr asedion sydd yn cefnogi'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Rhwydwaith Gwledig a Phost.

Mae cronfeydd eraill o £63m yn cynnwys £2m o enillion nas gwireddwyd ar First Rate Travel Services Holdings Limited, sef gweithrediad cydfenter, a £46m a £15m yn ymwneud ag enillion nas gwireddwyd ar Midasgrange Limited a G3 Worldwide Mail N.V., yn y drefn hon, y mae'r nnaill a'r llall yn weithrediadau cyfranogion.

8 Cyhoeddi cyfrifon anstatudol

Mae'r canlyniadau interim yn anarchwiliedig ond fe'u hadolygwyd gan archwilwyr. Nid yw'r wybodaeth ariannol a geir yma'n gyfwerth â chyfrifon statudol llawn yn yr ystyr a geir yn Adran 240 Deddf Cwmnïau 1985 (fel a ddiwygwiyd). Tynnwyd y ffigyrau am y flwyddyn hyd at 27 Mawrth 2005 ac ar 28 Mawrth 2005 o'r ailddatganiadau IFRS a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd 2005, a oedd wedi'u seilio ar Adroddiad a Chyfrifol Blynyddol 2005, sydd wedi eu ffeilio gyda'r Cofrestrydd Cwmnïau. Roedd yr adroddiad archwilio ar Adroddiad a Chyfrifol Blynyddol 2005 heb ei addasu ac nid oedd yn cynnwys datganiad dan Adran 237 (2) neu (3) Deddf Cwmnïau 1985.

Datganiadau Tua'r Dyfodol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys datganiadau ynghylch busnes, cyflwr ariannol a chanlyniadau gweithrediadau'r Grŵp a rhai o gynlluniau, amcanion, rhagdybiadau, blaenamcanion, disgwyliadau neu gredoau'r Grŵp yn achos yr eitemau hyn.

Mae'r Cwmni'n rhybuddio y gall unrhyw ddatganiad tua'r dyfodol a geir yn y ddogfen hon fod yn wahanol i'r canlyniadau go iawn – ac mae hynny'n digwydd yn aml - a gall y gwahaniaethau rhwng y datganiadau hyn a'r canlyniadau go iawn fod yn sylweddol. Felly, rhybuddir darllenwyr i beidio â dibynnu'n ormodol ar ddatganiadau tua'r dyfodol. Nid yw'r Cwmni'n ymgymryd ag unrhyw rwymedigaeth i gyhoeddi canlyniad unrhyw adolygiadau i'r datganiadau hyn y gellid peri iddynt adlewyrchu digwyddiadau neu amgylchiadau ar ôl dyddiad y ddogfen hon, gan gynnwys, heb gyfyngiad, newidiadau yn strategaeth y Grŵp, neu i adlewyrchu digwyddiadau a ragwelir.

Wrth eu natur, mae unrhyw ddatganiad tua'r dyfodol yn cynnwys risg ac ansicrwydd gan eu bod yn ymwneud â digwyddiadau ac yn dibynnu ar amgylchiadau a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Dylid ystyried datganiadau tua'r dyfodol felly yng ngoleuni gwahanol ffactorau pwysig a allai beri canlyniadau neu ddatblygiadau go iawn sydd yn sylweddol wahanol i'r rhai a gyfleir neu a awgrymir gan y datganiadau hyn tua'r dyfodol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill: effaith prisiau a chynhyrchion cystadleuol; problemau gweithredol mawr; colli cwsmeriaid pwysig; cyfyngiadau a osodir ar ddyledion y Grŵp; ymgymeriadau a gwarantau yn ymwneud â chronfeydd pensiwn; peryglon ymgyfreithiad a pheryglon cysylltiedig â gweithrediadau'r Grŵp dramor.

Gwybodaeth Gorfforaethol

Swyddfa Gofrestredig a Phencadlys y Grŵp

Daliadau'r Post Brenhinol ccc
148 Old Street
LLUNDAIN
EC1V 9HQ
020 7250 2888
Rhif Cofrestredig: 4074919

Gwefan gorfforaethol

Mae gwybodaeth gorfforaethol ychwanegol a gwybodaeth arall ar gael ar y wefan ganlynol (www.royalmail.com). Ni fwriedir i wybodaeth sydd ar gael ar y wefan hon fod yn rhan o'r cyfrifon ac ni ddylid ei hystyried felly.

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr yw cynnal gwefannau'n Grŵp a'u huniondeb; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newid a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n gyntaf ar y wefan.

Archwilwyr

Ernst & Young LLP
1 More London Place
LLUNDAIN
SE1 2AF

Cyfreithwyr

Slaughter and May
1 Bunhill Row
LLUNDAIN
EC1Y 8YY

Actiwariaid

Watson Wyatt Worldwide
Watson House
London Road
Reigate
SURREY
RH2 9PQ

Rheoleiddiwr (Postcomm)

Postal Gwasanaethau Commission
Hercules House
6 Hercules Road
LLUNDAIN
SE1 7DB

Corff Defnyddwyr

Postwatch
28 Grosvenor Gardens
LLUNDAIN
SW1W 0TT

Daliadau'r Post Brenhinol ccc a Grŵp cwmnïau'r Post Brenhinol

Mae Grŵp cwmnïau'r Post Brenhinol yn cynnwys Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Cwmni) – sydd yn perthyn yn gyfan gwbl i Lywodraeth EM - a'i isgwmnïau. Mae'r Cwmni wedi'i ymgorffori dan Ddeddf Cwmnïau 1985 (y Ddeddf) a vhynhyrvhir y cyfrifol yn unol â'r Ddeddf a safonau cyfrifyddu rhyngwladol perthnasol.

Lluniwyd y canlyniadau interim am y cyfnod o 26 wythnos a ddiweddodd 25 Medi 2005 (2004 26 wythnos a ddiweddodd 26 Medi 2004) ac fe'u paratowyd ar sail busnes gweithredol.